



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cofnodion wedi'i gadarnhau o Gyfarfod Agored
Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl Iechyd Cyhoeddus Cymru
7 Ebrill 2022, 09:30
Lleoliad: drwy Microsoft Teams

Yn bresennol:		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector)
Hefyd yn bresennol:		
Rachel Attwood	(RA)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu
Michelle Battlemuch	(MicB)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau, Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio
Mark Bellis	(MB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol/Cyfarwyddwr Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (<i>ar gyfer eitem 11/2022</i>)
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Lucy Day	(LD)	Rheolwr Busnes/Prosiect (<i>ar gyfer eitem 10/2022</i>)
Rupinder Dogra	(RD)	Pennaeth Partneru Datblygu Sefydliadol a Phobl
Liz Heath	(LH)	Cynrychiolydd ochr y staff
Tim Hooper	(TH)	Pennaeth Cynllunio a Chymorth Busnes, Cyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant (<i>ar gyfer eitem 11/2022</i>)

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion wedi'i gadarnhau o Gyfarfod (Agored) y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl 7 Ebrill 2022
------------------------	--

Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Samantha Morgan	(SamM)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth Pobl, Dealltwriaeth a Gwasanaethau
Sarah Morgan	(SM)	Pennaeth Profiad Gweithwyr (<i>ar gyfer eitem 10/2022</i>)
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		
Sally Attwood	(SA)	Cyfarwyddwr Pontio Iechyd a Llesiant
Andrew Jones	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Ysgrifenyddiaeth		
Andrew Morton	(AM)	Swyddog Cymorth y Bwrdd

<i>Dechreuodd y cyfarfod am 09:30</i>	
PODC 1/2022.04.07 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol, a nododd, oherwydd yr ymateb parhaus i'r pandemig COVID-19 ac mewn perthynas â'r canllawiau cenedlaethol a oedd ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig. Croesawodd y Cadeirydd RA, MicB, LD, RD, TH a SamM i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl. Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau a ddaeth i law. Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Gorffennaf 2022.	
PODC 2/2022.04.07	Datgan Buddiannau
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.	
PODC 3/2022.04.07	Eitemau i'w Trafod
PODC 3.1/2022.04.07	Blaenoriaethau Datblygu Sefydliadol a Phobl
Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar weledigaeth Lefel Uchel y Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl.	

Dyddiad: 7 Ebrill 2022	Fersiwn: Terfynnol	Tudalen: 2
-------------------------------	---------------------------	-------------------

Cyflwynodd NL yr eitem, gan amlinellu'r cyd-destun strategol, gweledigaeth y strategaeth a blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2022/23. Cyflwynodd RA y '5 Blaenoriaeth Fawr' trawsbynciol dan arweiniad yr adran Datblygu Sefydliadol a Phobl, datblygiadau sefydliadol a chynlluniau ymgysylltu. Aeth RD ymlaen i amlinellu blaenoriaethau partneriaeth yr adran Datblygu Sefydliadol a Phobl, ac amlinellodd SamM flaenoriaethau'r Timau Strategaeth Pobl, Dealltwriaeth a Gwasanaethau.

Trafododd y Pwyllgor:

- Bwysigrwydd proses ddysgu 360 gradd, cysgodi, ac annog staff i ystyried sgiliau trosglwyddadwy a gweithio'n ystwyth;
- Pwysigrwydd dysgu allanol a chyfleoedd hyfforddi proffesiynol, technegol a fyddai'n parhau hyd yn oed wrth i'r sefydliad geisio annog cyfleoedd dysgu mewnol, anffurfiol lle y bo'n briodol;
- Awgrym i newid terminoleg i'r 'Iaith Gymraeg gan gynnwys y Safonau', er mwyn pwysleisio bod cefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru i'r Gymraeg yn mynd y tu hwnt i ddeddfwriaeth;
- Yr angen i ystyried y strategaeth a sicrhau bod polisïau a chanllawiau yn cyd-fynd â'r strategaeth pan gânt eu hadolygu/diweddaru yn y dyfodol;
- Yr angen i ddarparu cymorth a phecyn cymorth i reolwyr i sicrhau eu bod yn barod i weithredu newid.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i'r tîm Datblygu Sefydliadol a Phobl am y cyflwyniad cynhwysfawr, gan nodi bod y '5 Blaenoriaeth Fawr' yn flaenoriaethau strategol priodol.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid rhannu'r cyflwyniad â'r Tîm Gweithredol a gofynnodd i Uned Fusnes y Bwrdd ystyried sut y gellid ymgorffori gwaith y '5 Blaenoriaeth Fawr' yng nghynllun gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

Camau gweithredu: HB/LB

PODC 3.2/2022.04.07	Diweddariad ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
--------------------------------	---

Derbyniodd y Pwyllgor y papur ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Blaenoriaethau ar gyfer 2022-2023.

Cyflwynodd RA y papur, gan nodi nad oedd y flaenoriaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i hymgorffori yn y '5 Blaenoriaeth Fawr' Datblygu Sefydliadol a Phobl oherwydd bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn rhychwantu'r blaenoriaethau, a'r sefydliad yn ehangach.

Cyflwynodd SM y blaenoriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2022-23, a oedd yn amlinellu'r gwaith sydd eisoes ar y gweill ar yr amcanion cydraddoldeb strategol: cyflwyno dangosfyrddau amrywiaeth; cyflog teg; dysgu a datblygu; datganiad gwerth gweithwyr, fframwaith ymddygiad a chymhwysedd a'r rhwymedigaethau adrodd cyfreithiol.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Fanteision yr hyfforddiant allanol a awgrymir mewn Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chyfleoedd i gysgodi mewn sefydliadau allanol gyda grŵp cynrychioliadol penodol;
- Yr integreiddio a awgrymir ar draws y sefydliad ehangach, gan nodi bod angen ymgorffori gwybodaeth ac arbenigedd nid yn unig ar draws Adnoddau Dynol a phartneriaethau busnes, ond ar draws ICC gyfan;
- Y doreth o gyfraith Cydraddoldeb y mae angen i reolwyr fod yn ymwybodol ohoni, a sut y mae hyn yn cael ei ledaenu ar draws y sefydliad. Dywedodd SM fod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth allanol i reolwyr (gyda chynnwys sefydliadol ychwanegol wedi'i ddarparu gan Datblygu Sefydliadol a Phobl er mwyn rhoi cyd-destun) wedi'i ddarparu i uwch aelodau o staff y sefydliad; gydag adolygiadau cadarnhaol ar y cyfan;
- Er bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn bwysig i'r gweithlu, mynegodd aelodau'r Pwyllgor eu hawydd hefyd i ganolbwyntio ar amcanion 4 a 5 y cynllun gweithlu strategol, yr agenda ehangach o ran sut yr oeddem yn cyflawni Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn allanol i boblogaeth Cymru.
- Nododd y Pwyllgor, er bod y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn goruchwylio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, bod rhai elfennau megis ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau allanol (h.y. rhaglen 'Ein dull ymgysylltu') yn cael eu hystyried yn rhan o gynllun gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwellu. Cytunodd RBW a HB i drafod hyn ymhellach ag aelodau'r Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

Camau gweithredu: RBW/HB/MM

Diolchodd y Pwyllgor i SM am ei diweddariad cynhwysfawr ar y blaenoriaethau ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol 2022-23.

PODC 4/2022.04.07 Eitem er Sicrwydd**PODC
4.1/2022.04.07 Diweddariad ar Newid Sefydliadol**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar Ailgynllunio Sefydliadol sy'n effeithio ar y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant a Chanolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd.

Cyflwynodd TH yr adroddiad drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn gyntaf ynghylch trosglwyddo Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol, gan nodi'r gwaith rheoli prosiectau da sydd ar y gweill i hwyluso trosglwyddiad llwyddiannus.

Trafododd y Pwyllgor:

- Gais LH i'r tîm ailystyried cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac Iechyd mewn perthynas â throsglwyddo'r Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol. Cytunodd NL i adolygu ac ailedrych ar yr Asesiad Effaith a Gydraddoldeb ac Iechyd a rhoi adborth i'r Pwyllgor;

Camau gweithredu: NL

- Y posibilrwydd o gynnwys staff a chynrychiolwyr undebau llafur ar fwrdd y rhaglen. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r Arweinydd Rhaglen newydd yn adolygu cyfranogiad amrywiol grwpiau i sicrhau cynrychiolaeth briodol, a bod cyllideb benodedig i sicrhau bod gan unigolion amser priodol i gymryd rhan. Dywedodd RD fod fforwm rhanddeiliaid wrthi'n cael ei sefydlu ar gyfer Timau Iechyd Cyhoeddus Lleol fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur a chyrff proffesiynol;
- Argymhelliad bod y sefydliad yn parhau i estyn cymorth i'r staff yr effeithir arnynt gan y trosglwyddiad y tu hwnt i'r cyfnod cymeradwyo, gyda'r bwriad o feithrin diwylliant partneriaeth. Wrth gytuno â'r pwynt hwn, dywedodd TH er y byddai rhan 1 o'r memorandwm cydddealltwriaeth yn sicrhau parhad busnes, roedd rhan 2 yn ceisio cryfhau'r system yn strategol fel proses hirdymor.

Aeth TH ymlaen i amlinellu'r cynllun i uno'r gyfarwyddiada Iechyd a Llesiant a Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd o dan gyfarwyddiaeth newydd Iechyd y Boblogaeth, gyda Mark Bellis yn Gyfarwyddwr Gweithredol.

Trafododd y Pwyllgor:

- Yr angen am raddfa atebion ar gyfer swyddogaethau 'y tu allan i'r cwmpas'. Cytunodd MB fod angen cynllun i symud ymlaen ar 'bob agwedd', gan nodi y gallai ICC ystyried atebion ochr yn ochr â'r agwedd strategol. Dywedodd NL ei fod yn llwyr ddisgwyl i bethau esblygu ac felly gallai'r cwmpas amrywio. Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf o ran y cynllun i symud ymlaen ar 'bob agwedd', yn benodol y cynigion ar gyfer swyddogaethau y tu allan i'r cwmpas.

Camau gweithredu: TH/MB

- Awgrym y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl fod yn rhan o'r gwaith ar ddechrau rhaglenni newid, cyn iddynt gychwyn er mwyn cynnig cymorth priodol.

Diolchodd y Pwyllgor i TH am y diweddariad, a derbyniwyd **sicrwydd** bod dull gweithredu rhaglen cadarn a chynhwysol ar waith i gyflawni'r newidiadau sefydliadol uchod.

PODC 5/2022.04.07	Argymhelliad i'r Bwrdd
PODC	Effeithiolrwydd y Pwyllgor
5.1/2022.04.07	
Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Weithdy Adolygu Perfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor gan LB.	
Ar ddechrau'r cyflwyniad, gwnaeth LB sylw ar yr adolygiad cynhwysfawr o Berfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor a gwblhawyd yn ddiweddar ar gyfer 2021/22. Amlinellodd LB y themâu allweddol a gododd o'r gweithdy ar draws ystod eang o waith y Pwyllgor, ynghyd ag elfennau penodol o'r Pwyllgor	

Datblygu Sefydliadol a Phobl. Daeth LB â'r cyflwyniad i ben drwy ddiffinio'r camau nesaf a'r cynllun i adlewyrchu adborth y Pwyllgor yng nghynllun gwaith 2022/23.

Diolchodd y Pwyllgor i LB am y cyflwyniad, ac aeth ymlaen i argymhell:

- Er y ceisir adborth gan y Pwyllgor drwy e-bost ar ddiwedd pob cyfarfod, bwriedir ymchwilio ymhellach i ffyrdd o geisio adborth gan y Pwyllgor ym mhob cyfarfod;
- Bod cynllun gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu'r amser mwyaf priodol i ystyried eitemau a fyddai'n rhan o waith y Bwrdd;
- Cyfeirio at y rheswm dros gynnwys yr eitemau ar yr agenda, a'u hystyried/cadw'n 'fyw' drwy gydol y flwyddyn fel y bo'n briodol.

PODC 5.2/2022.04.07	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor
--------------------------------	---------------------------------------

Derbyniodd ac ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl ar gyfer 2021/22, oedd yn crynhoi'r meysydd gweithgarwch busnes allweddol a gyflawnwyd.

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft i'w gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 26 Mai 2022 er mwyn cael sicrwydd bod y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn addas at y diben ac yn gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni ei gylch gorchwyl.

PODC 6/2022.04.07	Eitemau i'w Cymeradwyo
--------------------------	-------------------------------

PODC 6.1/2022.04.07	Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi
--------------------------------	--

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2022 a'r Cofnod o Gamau Gweithredu.

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2022 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod, gan gywiro 'rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol' yn y frawddeg a ganlyn: 'Roedd siaradwyr allanol wedi mynychu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o waith gwahanol grwpiau yn cwmpasu meysydd anabledd, **rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol**, hil, crefydd a cham-drin domestig'.
- Cymeradwyo cau'r ddau gam gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu.
- Cymeradwyo'r newid dyddiad i fis Gorffennaf 2022 ar gyfer y cam gweithredu cyntaf a oedd heb ei gwblhau.

Gwnaeth NL sylw ar gam gweithredu blaenorol ynghylch defnyddio'r Cofnod Staff Electronig ar draws y sefydliad i gofnodi gwyliau blynyddol, a phwysleisiodd ei fod yn awyddus i gynnwys yr Undebau Llafur yn y gwaith gwella prosesau busnes sydd ar y gweill.

PODC 7/2022.04.07	Eitemau i'w Nodi
PODC 7.1/2022.04.07	Cynllun Gwaith
Nododd LB y byddai'r cynllun gwaith ar gyfer y Pwyllgor yn cael ei ddatblygu yn dilyn y cyflwyniad yn y cyfarfod hwn ar flaenoriaethau Datblygu Sefydliadol a Phobl, ac y byddai'r cynllun yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf. Camau gweithredu: LB	
QSIC 8/2022.04.07	Materion Gweinyddol i Gloi
QSIC 8.1/2022.04.07	Unrhyw Fater Arall
Nid oedd unrhyw fater arall i'w nodi.	
QSIC 8.2/2022.04.07	Adborth gan y Pwyllgor
Gwahoddwyd y Pwyllgor i roi adborth am y cyfarfod gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella. Soniodd y Pwyllgor am y canlynol: pwysigrwydd caniatáu amser i ystyried 'eitemau mawr' yr oedd angen eu trafod yn fanwl; bod pobl yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu gofyn cwestiynau; bod y bar sgwrsio'n ddefnyddiol i ofyn am ddiffiniadau ac esboniadau heb darfu ar y cyflwynydd, a bod pobl yn teimlo y gallent gynnig her adeiladol.	
QSIC 8.3/2022.04.07	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf
Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 7 Gorffennaf 2022.	
<i>Dath y cyfarfod i ben am 11:55</i>	